

PLEIDLEISIWCH

Ellen

#1 AM SWYDDOG MENYWOD

Helo

Ellen ydw i ac rydw i'n sefyll i fod yn Swyddog Menywod nesaf UCM Cymru. Bob dydd, rydw i'n gweld menywod yn wynebu aflonyddu, rhywiaeth a thrais ar y stryd - ac rydw i o hyd yn clywed pobl yn dweud does dim angen ffeministiaeth arnom ni yn 2016. Etholwch fi a byddaf yn brwydro dros Gymru wedi'i haddysgu, ei rhyddhau a'i hysbrydoli gan ein mudiad menywod.

Rydw i wedi bod yn rhan o fudiad y myfyrwyr am y 2 flynedd ddiwethaf ac yn rôl Llywydd PDC, rydw i wedi sicrhau bod myfyrwyr yn teimlo fel rhan o'n hundeb - gan gynnal ein CCB cyntaf i gyrraedd y cworwm ers blynyddoedd a gan ddyblu nifer y bobl a bleidleisiodd yn ein hetholiadau - os caf fy ethol, byddaf yn gwneud yr un peth dros fyfyrwragedd ledled Cymru a'ch rhoi chi yn ôl wrth galon yr ymgyrch. Etholwch fi a byddaf yn dod ag angerdd a phrofiad i'r llwyfan cenedlaethol, i frwydro dros fyfyrwragedd mewn prifysgolion, colegau a phrentisiaethau - ac i'ch cefnogi chi i arwain eich brwydrau eich hunain.

FY HANES

>> Maniffesto Menywod Cymru
>> Cynllun Tacsi Diogel
>> Hawliau Myfyrwyr yn y Diwydiant Rhyw
>> Strydoedd diogel yng Nghaerdydd
>> Hustyngau Chwarae Teg

CYMORTH I FYFYRWYR SY'N RHIENI

Mae'r rhwystrau ariannol sy'n wynebu myfyrwyr sy'n rhieni'n enfawr ac mae'r mwyafrif helaeth o'r myfyrwyr hynny'n fenywod ac yn fyfyrwyr hŷn. Mae costau gofal plant yn bwysedd mawr ar fyfyrwyr sy'n rhieni, ynghyd â'r diffyg dealltwriaeth gan sefydliadau o anghenion myfyrwyr sy'n rheini. Yn anaml mae ein sefydliadau'n llefydd sy'n gyfeillgar i blant ac mae'r rhan fwyaf o gampysau'n methu â darparu ardaloedd lle mae croeso i fyfyrwyr a'u plant.

Fel eich Swyddog Menywod:

>> Byddaf yn lansio ymgyrch i sicrhau bod pob sefydliad AU ac AB yn darparu gofal plant fforddiadwy a hygyrch i fyfyrwyr sy'n rhieni

>> Byddaf yn brwydro i sicrhau bod pob darparydd addysg yn darparu llefydd sy'n gyfeillgar i blant yn ogystal â chyfleusterau newid plant ar gyfer myfyrwyr sy'n rhieni

> Mae Ellen wedi bod yn swyddog anhygoel ym PDC yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Rydw i wedi ei gweld hi'n rhoi ffeministiaeth a rhyddhad wrth galon ei holl waith, a does gen i ddim amheuaeth nad yw ei hymrwymiad, ei brwdfrydedd a'i phrofiad yn union beth sydd angen ar ymgyrch y menywod yng Nghymru i dyfu ac i ffynnu.

ROSIE INMAN
SWYDDOG MENYWOD UCM CYMRU

BWLCH CYFLOG RHYWEDDOL

Er gwaethaf degawdau o lobïo am newid, mae menywod yng Nghymru o hyd yn ennill cryn dipyn yn llai na dynion. Mae ffigyrau gan Wave Cymru'n dangos yn Nhachwedd 2014 roedd gwahaniaeth o 8.4% yr awr rhwng cyflog dynion a menywod sy'n gweithio llawn amser. Caiff y bwlch cyflog rhyweddol ei sbarduno gan effaith anghymesur cyfrifoldebau teuluol menywod, pwysau ar fenywod i ymgymryd â rolau sy'n cael eu dominyddu gan fenywod a chamwahaniaethu o ran cyflog. Mae gwaith sy'n cael ei ystyried yn "waith i fenywod" wastad wedi cael eu tanbrisio ac rydym ni wedi gweld y duedd honno'n parhau eleni - o fwrsariaethau nyrsio'n cael eu torri'n sylweddol; i fyfyrwyr sy'n rhieni (menywod yw'r rhan fwyaf ohonynt) yn cael cynnig gwael ar gyllid gofal plant; i fenywod sy'n brentisiaid, lle mae'r bwlch cyflog yn 21%: ffigwr syfrdanol.

Fel eich Swyddog Menywod:

>> Byddaf yn lansio ymgyrch i annog myfyrwragedd a rhoi grym iddyn nhw ymuno â Bwrdd Ymddiriedolwyr elusennau neu fudiadau y maen nhw'n gofalu amdanynt, er mwyn rhoi hyder a phrofiad iddyn nhw gael swyddi lefel uchel yn syth ar ôl y brifysgol neu'r coleg

>> Byddaf yn cefnogi ac yn gweithio gyda mudiadau fel Ymddiriedolaeth y Menywod Ifanc i sicrhau bod gwerth gwaith menywod mewn prentisiaethau yn cyfateb â gwerth gwaith dynion



PRENTISIAID

Mae 51% o holl brentisiaid yn fenywod, ond mae'r mwyafrif mewn diwydiannau a gaiff eu tanbrisio a'u tangyflogi - gofal iechyd a chymdeithasol, gwarchod plant, trin gwallt. Dim ond 4% o brentisiaid peirianneg sy'n fenywod, ac mae'r ychydig sy'n dilyn gyrfa yn y diwydiannau hyn yn aml yn siarad am y 'tynnu coes' a'r ystrydebau rhywiaethol y mae rhaid iddyn nhw frwydro yn eu herbyn yn eu rôl. Mae angen i'r dirwedd wella'n sylweddol ar gyfer menywod sy'n brentisiaid. Mae angen i lais prentisiaid arwain y gwaith hwn ac mae rhaid i UCM Cymru barhau i gydweithio gyda Chymdeithas Genedlaethol Prentisiaid Cymru (CGPC) ar bopeth rydyn ni'n ei wneud.

Fel eich Swyddog Menywod:

>> Byddaf yn gweithio'n agos gyda CGPC i annog menywod sy'n brentisiaid yng Nghymru i ddilyn gyrfa mewn unrhyw ddiwydiant yn ogystal â'u cefnogi.

>> Byddaf yn brwydro i ddileu'r diwydiannau presennol a gaiff eu diffinio gan ryweddau yn y system gyfredol

>> Byddaf yn ymgyrchu i sicrhau bod y Llywodraeth a busnesau'n rhoi gwerth ar waith gofalu a rolau sy'n gysylltiedig â menywod yn draddodiadol.

ADDYSG RHYW GYNHWYSOL

Mae myfyrwyr yng Nghymru'n methu o achos system addysg sy'n gwrthod rhoi dealltwriaeth go iawn iddyn nhw o ryw a pherthnasedd. Dydy ysgolion ddim yn darparu trafodaeth bwysig ynghylch gwahanol hunaniaethau rhyweddol a rhywioldebau na chwaith bodlonrwydd â'r corff, mastyrbio, misglwyfau nac hyd yn oed cydsyniad. Mae'r llywodraeth wedi gwneud dim ynghylch y mater am rhy hir - gan hyd yn oed gwrthod cynnwys addysg berthnasoedd iach yn y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod. Mae'r diffyg trafod hwn gyda'n hieuenctid yn cyfrannu at gymaint o'r anghyfiawnderau y mae rhaid i fenywod eu hwynebu bob dydd, o rywiaeth achlysurol i drais rhywiol.

Mae aflonyddu ac ymosodiadau rhywiol yn mynd yn fwy cyffredin; mae 68% o fyfyrwragedd wedi dioddef aflonyddu yn ystod eu cyfnod yn y brifysgol. Rhaid cynnwys cydsyniad yn y cwricwlwm cenedlaethol. Dim ond ffracsiwn bach o ymosodiadau rhywiol sy'n cael eu cofnodi gan yr heddlu ac mae llawer o fenywod yn cael eu gorfodi i ddibynnu ar elusennau a chanolfannau argyfwng lleol am gymorth; canolfannau sydd wastad dan berygl gan doriadau cyni. Rhaid i ni newid y ffordd y caiff rhyw ei ystyried gan ormod o bobl yn ein cymdeithas.

Fel eich Swyddog Menywod:

>> Byddaf yn brwydro i sicrhau bod darparwyr addysg yng Nghymru yn darparu addysg rhyw sy'n gynhwysol ac yn gynhwysfawr o ran pob rhywedd a rhywioldeb fel rhan o'r cwricwlwm, ac nid yn broses sy'n gwahanu o ran rhywedd.

>> Byddaf yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n cyflwyno cydsyniad ac addysg rhyw emosiynol i'r cwricwlwm a gweithio ynghyd â'ch undebau i ddarparu sesiynau cydsyniad.

>> Byddaf yn lobïo Llywodraeth Cymru i ddarparu adnoddau angenrheidiol i Gymru gyfan er mwyn iddynt allu cefnogi dioddefwyr trais ac ymosodiadau rhywiol, fel canolfannau argyfwng trais rhywiol mwy hygyrch yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.



"Rydw i wedi cael y fraint o weithio gydag Ellen yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hi wedi brwydro dros fenywod a chydraddoldeb yn gyson ym mudiad y myfyrwyr ac yn y gymuned ehangach, ac mae ei gwaith i barhau i wella diogelwch yng Nghaerdydd heb ei ail."

LYDIA WATSON
LLYWYDD ABERTAWE, UM Y DRINDOD DEWI SANT

OS HOFFECH CHI GAEL Y MANIFFESTO HWN MEWN FFORMAT AMGEN, NEU OS OES GENNYCH CHI UNRHYW GWESTIYNAU, MAE CROESO I CHI GYSYLLTU A FI

/ELLEN4WO @ELLEN29 #ELECTELLEN